# Camau Gweithredu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 18 Gorffennaf 2018 | Lleoliad: | Swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Aberystwyth |

**Presennol:**

Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Branwen Miles (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Betsan John (Llywodraeth Cymru)
Bob Vaughan (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Sarah Hetherington (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Helen Haider (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Rob McCall (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Brian Pawson (Cyfoeth Naturiol Cymru)

**Ymddiheuriadau:**

Jamie McCoy (Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth)
Eirwen Williams (Menter a Busnes)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Ryan Davies (Llywodraeth Cymru)
Laura Griffiths (Llywodraeth Cymru)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)
James Ruggeri (Hybu Cig Cymru)
Geraint Weber (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Nichola Taylor (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Matt Lowe (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Meinir Wigley (Cyfoeth Naturiol Cymru)

| **Rhif:** | **Eitem** | **Cam gweithredu** |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |

Gwnaeth Zoe Henderson groesawu Brian Pawson yn ôl i'r is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar ôl cyfnod o absenoldeb tosturiol. Cafodd Branwen Miles ei llongyfarch am ei rôl newydd yn Sefydliad Tirfeddianwyr Ewrop.

## 2 Rhaglen cyflenwi Cyswllt Ffermio ar lygredd amaethyddol a'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffilm

Mae'r ffilm fer ddiwygiedig a gynhyrchwyd gan Cyswllt Ffermio wedi'i chylchredeg i'r grŵp. Bydd y ffilm yn cael ei dangos yn Sioe Frenhinol Cymru ar stondin Cyswllt Ffermio. Dywedodd aelodau fod y sleid olaf ond un yn dangos logos y sefydliadau unigol, gyda'r sleid olaf hefyd yn nodi 'cefnogir hefyd gan yr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru'. Nid yw hyn yn egluro bod holl logos y sefydliadau mewn gwirionedd yn cynrychioli aelodau'r is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Nid oedd yn glir a fyddai cyfle i ddiwygio hyn cyn Sioe Frenhinol Cymru.

Dangosodd Sara Jenkins luniau o'r efelychydd dŵr glaw a fydd ar stondin Cyswllt Ffermio yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd y model wedi'i anodi gyda ffigurau sy'n tynnu sylw at faint o ddŵr glân sy'n gallu mynd i mewn i system storio slyri os nad yw'n cael ei ddargyfeirio. Bydd y model yn arddangosfa weledol wyth troedfedd yn gwneud y pwynt y gall iardiau sydd â tho addas arnynt leihau'r angen ar gyfer capasiti storio slyri / lleihau'r costau sydd ynghlwm â thaenu slyri. Awgrymwyd y dylid gwneud fideo o'r efelychydd yn gweithio, a'i ddangos ar y cyfryngau cymdeithasol.

***Cam Gweithredu 1: Sara Jenkins i drefnu ffilmio'r efelychydd dŵr glaw ac anfon dolen YouTube at yr is-grŵp.***

Cafwyd trafodaeth am werth creu taflen ffeithiau Cyswllt Ffermio am effeithlonrwydd dŵr gwell, yn enwedig mewn perthynas â ffermydd llaeth.

***Cam Gweithredu 2: Bob Vaughan i gylchredeg.***

Mae angen cadarnhau manylion y naw o ddigwyddiadau ffermio cynaliadwy o hyd. Bydd y digwyddiadau ffermio cynaliadwy yn cael eu cynnal mewn lleoliadau sydd â lle ar gyfer nifer fawr o ffermwyr. Os bydd gormod o bobl yn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau, yna bydd digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal. Caiff pob ffermwr o fewn cyrff dŵr sy'n methu eu gwahodd i'r digwyddiadau ffermio cynaliadwy. Bydd 15 o ddigwyddiadau olrhain ychwanegol ar ffermydd yn cael eu darparu gan Keith Owen (Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol) a Chris Duller (Cynghorydd Glaswelltir) o fis Hydref ymlaen. Mae digwyddiadau wedi'u targedu eisoes wedi'u cynnal yn Ynys Môn a Gele, felly rhoddir pwyslais ar y cyrff dŵr eraill sy'n methu.

Cytunwyd y dylai swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru gysylltu â swyddogion datblygu lleol Cyswllt Ffermio a bennwyd i'r dalgylchoedd perthnasol er mwyn trafod ffermydd addas ar gyfer cynnal y digwyddiadau wedi'u targedu. Nid oes yn rhaid i Cyswllt Ffermio ddefnyddio ffermydd arddangos presennol ar gyfer y digwyddiadau a dargedir. Nid oes unrhyw ragofyniad i ffermwyr eu bod wedi mynychu un o'r digwyddiadau ffermio cynaliadwy os ydynt wedyn am fynychu digwyddiad wedi'i dargedu.

Cafodd Sara Jenkins a'i chydweithwyr eu diolch am ailymweld â'r dull ar gyfer y digwyddiadau wedi'u targedau er mwyn cyflawni canlyniad llwyddiannus i bawb.

***Cam Gweithredu 3: Rob McCall i ddechrau drafftio canllawiau ynghylch y dull o drin materion rheoleiddiol ar gyfer y staff Cyfoeth Naturiol Cymru hynny sydd ynghlwm â digwyddiadau cyngor ac arweiniad.***

Mae'r grŵp Agrisgôp, a gafodd ei greu yn ddiweddar yn nalgylch Gele, yn bwriadu cyflwyno cais ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Mae'r grŵp wedi cynnal rhywfaint o ddadansoddiadau o achosion sylfaenol i nodi'r hyn sy'n achosi'r lefelau ffosffad a bacteria uchel yn y dalgylch. Gwnaeth y dadansoddiad o achosion sylfaenol nodi bod taenu gwastraff ar y tir yn ffactor sy'n cyfrannu, tra bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi'r achos fel mynediad stociau at gyrsiau dŵr yn y gorffennol. Mae angen dweud wrth staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio yn nalgylch Gele am y broblem hon er mwyn ei hymchwilio'n bellach.

***Cam Gweithredu 4: Bob Vaughan i archwilio'r materion sy'n ymwneud â rhoi gwastraff ar y tir, drwy ofyn i un o arbenigwyr gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru i fynychu cyfarfod nesaf yr is-grŵp.***

***Cam Gweithredu 5: Helen Haider i ychwanegu 'taenu gwastraff ar y tir' at yr agenda ar gyfer cyfarfod yr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Awst/Medi.***

Gwnaed dadansoddiad o achosion sylfaenol hefyd gan grŵp Agrisgôp Trothi. Gwnaeth hyn nodi mai'r brif broblem yn y dalgylch oedd tyfu india-corn. Mae Cyswllt Ffermio bellach wedi trefnu digwyddiad yn y dalgylch ynghylch hau cnwd arall dan gnydau india-corn.

Yr adborth gan y grwpiau Agrisgôp presennol yw nad oes digon o ddata ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi'r rhesymau dros ansawdd dŵr gwael, union leoliad y problemau, ac a yw pob un o'r rhain yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Trafodwyd pa mor addas yw'r gwaith o

fonitro sy'n cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a gofynnwyd i'r grŵp roi adborth i Cyfoeth Naturiol Cymru am eu safbwyntiau a'u syniadau ar gyfer gwella. Amlygwyd bod rhai ffermwyr yn awyddus i gynnal eu gwaith monitro eu hunain mewn dalgylchoedd, ac y gellid cysylltu hyn â thaliad posib ar gyfer cynllun talu am wasanaethau ecosystemau. Awgrymwyd y gellid cynnal adolygiad ynghylch sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd o ran monitro ansawdd dŵr, a'r potensial i ddechrau rhaglen fonitro ar y cyd.

Nododd Sara Jenkins y bydd dadansoddiadau o achosion sylfaenol pellach yn cael eu cynnal gyda ffermwyr i nodi natur y problemau llygredd o fewn dalgylchoedd penodol.

***Cam Gweithredu 6: Bob Vaughan i rannu dolenni gwe ar argaeledd dyfeisiau monitro â llaw rhad y gallai ffermwyr eu defnyddio i asesu a yw tueddiadau ansawdd dŵr yn symud i'r cyfeiriad cywir.***

***Cam Gweithredu 7: Bob Vaughan i rannu dolenni at Gynllun Gweithredu Llygredd Gwasgaredig cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru gyda gweddill yr is-grŵp.***

Nodwyd y byddai Cyswllt Ffermio yn cynnal dau ddigwyddiad "Ffermio ar gyfer y Dyfodol" ychwanegol ar 21 a 23 Awst. Mae'n rhaid i ffermwyr fynychu un o'r cyfarfodydd hyn os ydynt yn bwriadu gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wedi adolygu taflen ffeithiau mewn perthynas â dŵr glân a dŵr budr, ond mae angen gwirio rhai o'r taflenni ffeithiau sy'n weddill o hyd. Nododd Sara Jenkins na fyddai Cyswllt Ffermio yn ymdrin â'r mater tywydd cynnes yn Sioe Frenhinol Cymru, ond eu bod wedi cyflwyno taflen ffeithiau ar y pwnc yr wythnos ddiwethaf. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu ymateb ynghyd ynghylch tywydd cynnes ac adnoddau dŵr. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn mynd ar ôl Llywodraeth Cymru o ran y mater hwn.

Gwnaeth y grŵp hefyd drafod y mater o bysgod mewn gofid. Cynghorir aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â llinell gymorth Cyfoeth Naturiol Cymru os ydynt yn gweld unrhyw arwyddion o bysgod mewn gofid.

***Cam Gweithredu 8: Bob Vaughan i siarad â Dave Mee (Tîm Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru) ynghylch rhannu gwybodaeth am bysgod mewn gofid gyda Cyswllt Ffermio.***

Bydd modiwlau e-ddysgu Cyswllt Ffermio am reoli maethynnau, rheoli tail a hwsmonaeth dda ar gael erbyn diwedd mis Gorffennaf. Awgrymwyd bod lefel y modiwlau wedi'i gosod yn rhy isel o bosibl, ac y

byddai manteision ynghlwm â datblygu pecynnau sy'n addas i amryw o alluoedd.

***Cam Gweithredu 9: Sara Jenkins i gylchredeg manylion mewngofnodi dros dro ar gyfer modiwlau e-ddysgu presennol Cyswllt Ffermio i holl aelodau'r grŵp fel y gallant roi cynnig arnynt.***

***Cam Gweithredu 10: Sara Jenkins i ofyn i Keith Thomas o Lantra i roi diweddariad ynghylch y cwrs hyfforddi arfaethedig i gontractwyr sydd ynghlwm â'r gwaith o daenu slyri.***

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnal digwyddiad llaeth yng Ngholeg Sir Gâr (campws Gelli Aur) ar 31 Awst.

## 3. Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet i adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru

Mae pob aelod o'r grŵp bellach wedi derbyn copi o gydnabyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet o'r adroddiad dros dro hwn. Cafwyd trafodaeth bellach ar rinweddau cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet i drafod yr argymhellion yn yr adroddiad.

## 4. Diweddariad ar Brosiect Cyngor Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r broses gyfweld i gyflogi wyth swyddog amaethyddiaeth ychwanegol yn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i chwblhau, a dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn eu swyddi erbyn diwedd mis Awst. Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda staff lleol Cyswllt Ffermio i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn Cyswllt Ffermio a sicrhau bod ffermwyr yn derbyn y cyngor gorau. Bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Sioe Frenhinol Cymru ynghylch lansiad y Prosiect Cyngor Llaeth. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfarfod â Laura Griffiths (Llywodraeth Cymru) i drafod sut y gallai'r wyth cynghorydd newydd yn Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda Cyswllt Ffermio.

***Cam Gweithredu 11: Matt Lowe i roi diweddariad mwy manwl ar Brosiect Cymorth Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

***Cam Gweithredu 12: Sarah Hetherington i gysylltu â Matt Lower a sicrhau bod manylion rhaglen gyngor Cyswllt Ffermio ar gael i'r wyth cynghorydd newydd yn Cyfoeth Naturiol Cymru.***

Nodwyd nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o ddata i benderfynu a yw ffermydd unigol mewn llai o berygl o achosi llygredd amaethyddol ar ôl cael ymweliad ymgynghorol gan Cyswllt Ffermio. O ran datblygu'r "cydnabyddiaeth a enillir", byddai o gymorth pe bai modd i Menter a Busnes ofyn i ffermwyr pe baent yn hapus i fanylion am

fuddsoddiadau i lygredd amaethyddol gael eu rhannu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 5. Llythyr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Cadarnhaodd Andrew Chambers fod llythyr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy bellach wedi'i dderbyn gan Gareth Wilson yn Llywodraeth Cymru. Yn y pen draw, Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol dros wneud y penderfyniad terfynol ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Cadarnhaodd Andrew Chambers fod ffermwyr sydd â storfeydd slyri cyn 1991 (strwythurau sydd wedi'u heithrio) yn gymwys i wneud cais ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, er y byddai dal angen capasiti storio o bedwar mis o leiaf ar gyfer storfeydd o'r fath (h.y. mae'r eithriad yn gysylltiedig â'r dyddiad adeiladu nid lefel y capasiti). Roedd aelodau'r is-grŵp yn teimlo bod sefyllfa'r ffermwyr sydd â strwythurau cyn 1991 yn parhau'n amwys ac roedd angen mwy o eglurhad ynglŷn â'r gofynion cymhwyso ar gyfer Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

***Cam Gweithredu 13: Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru) i gael ei wahodd i gyfarfod nesaf yr is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

## 6. Trafodaeth am adroddiadau diweddar ar ansawdd dŵr – Cyswllt Amgylchedd Cymru, “Restoring our Freshwaters”, a Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF), “Saving the Earth”

**Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y posibilrwydd o wahodd cynrychiolwyr o Cyswllt Amgylchedd Cymru i gyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol, yn enwedig o safbwynt y llythyr a dderbyniwyd yn flaenorol gan James Byrne. Posibilrwydd arall byddai cymryd tystiolaeth gan Cyswllt Amgylchedd Cymru fel rhan o gyfarfod sydd ar gyrraedd. Efallai y gellid cyfuno ymweliad â Phrosiect Gwastadeddau Byw Gwent gyda chyfarfod is-grŵp yn y dyfodol. Nodwyd bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei gwneud yn ofynnol fod pob penderfyniad ynghylch aelodaeth y grŵp rhanddeiliaid yn cael ei ddogfennu'n ddigonol.**

***Cam Gweithredu 14: Brian Pawson a Zoe Henderson i ymateb i Cyswllt Amgylchedd Cymru o ran eu hadroddiad diweddar ar ansawdd dŵr a gwneud cais i is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddod yn aelod.***

Dywedodd Zoe Henderson fod Julie Finch o 2 Sisters Food Group hefyd wedi gofyn am ymuno ag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a bod trafodaeth anffurfiol wedi'i threfnu yn ystod Sioe Frenhinol Cymru. Awgrymwyd y byddai'n fwy priodol pe bai corff masnachu yn y diwydiant cig yn mynychu'r is-grŵp yn hytrach na chwmnïau unigol. Yn y cyd-

destun hwn, mae Hybu Cig Cymru eisoes yn aelodau o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Crybwyllwyd bod Dr Stephen Marsh-Smith o Afonydd Cymru hefyd â diddordeb mewn ymuno ag is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Cynghorwyd Dr Marsh-Smith i gyflwyno cais drwy ysgrifennu'n uniongyrchol at gadeirydd yr is-grŵp.

Yn ddiweddar, gwnaeth aelodau o Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin fynd i gyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin ar amaethyddiaeth a chynllunio defnydd tir ynghyd ag Afonydd Cymru. Mae cyfarfod dilynol yn cael ei gynllunio gan Stephen Marsh-Smith, sydd hefyd yn trafod â Gareth O'Shea o Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Creighton Harvey wedi darparu arfarniad byr o'r adroddiadau a gafodd eu paratoi gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r WWF.

***Cam Gweithredu 15: Aelodau eraill o'r is-grŵp i adrodd unrhyw sylwadau ar adroddiadau Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r WWF i Helen Haider / Marc Williams.***

***Cam Gweithredu 16: Cyfoeth Naturiol Cymru i groesgyfeirio'r argymhellion sydd yn adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru gydag unrhyw argymhellion a wnaed yn adroddiadau Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r WWF er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth wedi'i anwybyddu.***

## 7. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch "Brexit a'n tir" (Papur Gwyrdd)

Cafwyd trafodaeth am a ddylai is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddarparu ymateb ar y cyd i'r Papur Gwyrdd yn ogystal â'r ymatebion unigol gan sefydliadau aelodau. Cytunwyd y dylai is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddarparu ymateb cryno yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o'r ymgynghoriad sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag adroddiad blaenorol yr is-grŵp.

***Cam Gweithredu 17: Helen Haider i sicrhau bod y Papur Gwyrdd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr is-grŵp.***

## 8. Argymhellion rheoleiddiol yn adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Gwnaeth Rob McCall dynnu sylw at y ffaith fod ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd yn cyfeirio at waith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar faterion rheoleiddiol, ac mae Pennod 7 yr ymgynghoriad yn cyd-fynd â'r argymhellion yn adroddiad dros dro is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Nid yw'r ymgynghoriad yn crybwyll pryd y gellid disgwyl**

**unrhyw newidiadau rheoleiddiol, ond mae datganiad pellach ar y mater hwn wedi'i addo ar gyfer yr hydref. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud unrhyw ddatganiad mewn perthynas â'r Parthau Perygl Nitradau (NVZ), ond mae'r ymgynghoriad yn amlygu'r rôl ar gyfer Mesurau Sylfaenol. Mae gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o hyd drwy weithio ar ddatblygu'r argymhellion rheoleiddiol yn yr adroddiad dros dro.**

Amlygwyd materion sy'n ymwneud â rheoli datblygiadau (cynllunio defnydd tir) yn yr adroddiad dros dro, ac mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ac is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyfrannu at y cylch nesaf o Gynlluniau Datblygu Lleol. Dylid ystyried y gwaith o reoli datblygiadau fel proses alluogi sy'n cynorthwyo ffermwyr i ddarparu'n briodol er mwyn lleihau'r perygl o lygredd, yn hytrach na darpariaeth sy'n lleihau ymgysylltiad ac yn hyrwyddo'r defnydd o geisiadau cynllunio ôl-weithredol. Mae gan y cymorthfeydd cynllunio a ddarperir gan Cyswllt Ffermio ran i'w chwarae, ond mae hefyd angen i awdurdodau lleol ystyried y llwythi maethynnau sy'n codi o bob fferm yn y dalgylch fel rhan o ystyried eu penderfyniadau ar geisiadau unigol.

***Cam Gweithredu 18: Creighton Harvey a Rob McCall i drafod cynrychiolaeth yng nghyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin, Afonydd Cymru, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ar y gweill. Gellir defnyddio'r canlyniad o'r cyfarfod hwn fel sail ar gyfer dechrau ar y drafodaeth gydag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

Dywedodd Dennis Matheson fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gymalau enghreifftiol ar gyfer cytundebau tenantiaeth, gan egluro pwy sy'n gyfrifol am ofynion storio slyri. Dylai testun drafft fod ar gael erbyn yr hydref.

**Cytunwyd bod angen i'r is-grŵp ddatblygu ei waith dadansoddi bylchau o ran y dirwedd reoleiddiol bresennol. Bydd y gwaith hwn yn hanfodol i unrhyw ymateb gan yr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru.**

***Cam Gweithredu 19: Rob McCall i gynnal gwaith dilynol ar ddadansoddiad presennol yr is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru o'r bylchau mewn perthynas â rheoleiddio.***

## 9. Cyfle Cronfa Bontio'r UE

Mae Cronfa Bontio'r UE gan Lywodraeth Cymru wedi'i dylunio i gynorthwyo pob sector ledled Cymru wrth baratoi ar gyfer Brexit. Dylai buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud o Gronfa Bontio Ewrop fod:

- yn ychwanegol at weithgareddau parhaus sydd eisoes yn digwydd, gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol lle bo modd
- yn ychwanegol at fuddsoddiadau/iawndal gan Lywodraeth y DU

- yn strategol, wedi'u sefydlu'n dda ac â photensial clir i ychwanegu gwerth, a chefnogi gwaith ar y cyd ar draws sectorau
- lle bynnag y bo'n bosibl, wedi'u dosbarthu gan ddefnyddio sianelau ariannu presennol Llywodraeth Cymru gyda sefydliadau sydd eisoes yn weithredol yn yr ardaloedd a nodwyd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru am sut i lunio cais llwyddiannus ar ran Fforwm Rheoli Tir Cymru, yn ogystal â'r materion ehangach ynghylch rheoli tir yn gynaliadwy ar ôl Brexit. Bydd cyfarfod ychwanegol rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gynnal maes o law. Bydd cyfle i adeiladu cais Fforwm Rheoli Tir Cymru o amgylch yr argymhellion yn yr adroddiad dros dro – gan dynnu sylw at sut i fynd i'r afael â materion amaethyddol a fydd yn gwella perfformiad amgylcheddol Cymru ac felly yn gwneud cadwyni cyflenwi yn fwy gwydn. Yn y cyd-destun hwn, nododd Sarah Hetherington fod rhai o'r argymhellion gan Fforwm Rheoli Tir Cymru bellach yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith datblygu sy'n cael ei wneud ar Brand Cymru.

***Cam Gweithredu 20: Bob Vaughan i gylchredeg gwybodaeth bellach ynglŷn â chynnig prosiect Cronfa Bontio'r UE.***

***Cam Gweithredu 21: Pob aelod o'r is-grŵp i anfon sylwadau ar y cynnig ar gyfer Cronfa Bontio'r UE at Bob Vaughan.***

***Cam Gweithredu 22: Helen Haider / Marc Williams i sicrhau bod eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp er mwyn trafod y cynnig ar gyfer Cronfa Bontio'r UE.***

***Cam Gweithredu 23: Bob Vaughan i lunio cynnig i Gronfa Bontio'r UE o gynnig prosiect Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

Nodwyd na ellid defnyddio Cronfa Bontio'r UE ar gyfer rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru eisoes fod yn ei gyflawni fel rhan o'i chyfrifoldebau presennol.

Mae nifer o'r argymhellion o adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru eisoes wedi'u nodi fel rhai sy'n addas ar gyfer eu hariannu o dan gais "beichiau nad ydynt wedi'u hariannu" blaenorol Cyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru. Bydd angen eithrio unrhyw argymhellion sydd eisoes â digon o arian ar eu cyfer o gais Fforwm Rheoli Tir Cymru i Gronfa Bontio'r UE.

***Cam Gweithredu 24: Helen Haider i gwblhau rhestr o brosiectau arfaethedig Fforwm Rheoli Tir Cymru o dan gynnig beichiau nad ydynt wedi'u hariannu Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i chylchredeg i weddill yr is-grŵp.***

## 10. Datgelu cofnodion is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Ar ôl cyhoeddi adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru a chreu tudalen wedi'i neilltuo ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, cytunwyd y dylid cyhoeddi holl gofnodion cyfarfodydd yn y dyfodol (gan ddechrau gyda'r cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2018) yn gyhoeddus.

***Cam Gweithredu 25: Pob aelod o'r is-grŵp i adolygu cofnodion drafft o'r cyfarfod ar 18 Gorffennaf er mwyn sicrhau cywirdeb a'r defnydd o arddull addas cyn cyhoeddi.***

## 11. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol

- 22 Awst 2018 – Coleg Sir Gâr, campws Gelli Aur, gan gynnwys ymweliad â'r system gwahanu slyri
- 25 Medi – Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran, Cwmystwyth, gan gynnwys ymweliad â'r safleoedd ymchwil
- 11 Hydref – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth
- 7 Tachwedd – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth
- 12 Rhagfyr 2018 – Swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru yn Aberystwyth

Cytunwyd y dylai cyfarfod neu ymweliad safle ar y cyd gydag aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru ffurfio rhan o gyfarfod yn y dyfodol. Dylid hefyd gwahodd cynrychiolydd o'r prosiect Adeiladu Gwytnwch mewn Dalgylchoedd (BRICS) i siarad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Mae Zoe Henderson a Bernard Griffiths yn siarad yng nghyfarfod Panel Cynghorol Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru yng Nghaerdydd ar 19 Gorffennaf.

Bydd Creighton Harvey yn siarad gydag aelodau Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ynglŷn ag adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 2 Awst.

Mae NFU Cymru wedi bod yn defnyddio'r sioeau sir i holi ffermwyr am eu hymagweddau tuag at ansawdd dŵr. Rhoddwyd cof bach USB rhad ac am ddim i'r holl ffermwyr a aeth i Sioe Trefynwy gyda gwybodaeth arno am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr.

## 13. Cofnodion o gyfarfod is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 21 Gorffennaf 2018

Mae'r holl gamau gweithredu blaenorol naill ai wedi'u cwblhau neu'n derbyn sylw ar hyn o bryd.

## 14. Unrhyw fusnes arall

Nodwyd bod tudalen 6 o adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru yn datgan y bydd cyfres fwy manwl o argymhellion yn cael ei chyhoeddi

ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cynigion drafft Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sut i ddatblygu pob un o'r argymhellion eisoes wedi'u cylchredeg, ac mae nifer o aelodau'r is-grŵp wedi cynnig sylwadau manwl yn barod.

***Cam Gweithredu 26: Meinir Wigley i drefnu cyfweliad/erthygl ar y gwaith y mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn bwriadu ymgymryd ag ef yn y dyfodol.***

Gwnaeth Andrew Chambers esbonio y byddai Jeremy Frost (Tîm Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru) â diddordeb mewn dod i gyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol.

***Cam Gweithredu 27: Helen Haider / Marc Williams i wahodd Jeremy Frost i gyfarfod yn y dyfodol.***

Awgrymwyd y byddai'n werth ceisio cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet fel ffordd o ddilyn ei llythyr diweddar at gadeirydd yr is-grŵp.

***Cam Gweithredu 28: Zoe Henderson / Brian Pawsom i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i gyfarfod ag aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

Mae cyfeiriad e-bost ar gyfer is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru bellach wedi'i greu a bydd yn cael ei ychwanegu at wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gellir anfon unrhyw adborth/sylwadau sy'n codi o'r adroddiad dros dro at y blwch derbyn hwn, a fydd yn cael ei reoli gan Helen Haider a Marc Williams.

***Cam Gweithredu 29: Marc Williams i gylchredeg manylion am gyfeiriad e-bost is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

***Cam Gweithredu 30: Pawb i gyhoeddi adroddiad dros dro Fforwm Rheoli Tir Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol.***